



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742
Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Ebrill 19eg, 2013

Presennol

*Robert Gorman, Sara Fflur Griffiths,
Dylan Skym, Gwenllian Thomas,
Rhianedd Owen, Sara ap Robert John,
Erin Davies, Llŷr Eirug,
Dylan James-Williams, Elen Llywelyn Evans,
Mrs Williams, Mrs Llwyd*

Agenda

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

Croesawodd Robert Gorman, Cadeirydd y Cyngor Ysgol, bawb i'r cyfarfod, ac yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg.

2. Trafod materion sy'n codi yn y dosbarthiadau:

Gofynnodd Robert os oedd unrhyw faterion wedi codi ymhlith ein cyd-ddisgyblion yn y dosbarthiadau ers y cyfarfod diwethaf.

Trafodwyd y canlynol:

- **Yr ardd natur** – cytunwyd fod angen annog pob dosbarth drwy'r ysgol i chwynu a phlannu yn yr ardd natur yn ystod yr hanner tymor nesaf, er mwyn sicrhau ei bod yn edrych ar ei gorau.
- **Amserlen yr iard amser chwarae** – dywedodd Erin fod tipyn o ddadlau amser chwarae ynglŷn â phwy sy'n cael chwarae ar wahanol rannau o'r iard. Awgrymodd Dylan y byddai amserlen yn syniad da, fel bod pob blwyddyn yn chwarae ar ran benodol o'r iard yn ystod amser chwarae penodol. Cytunodd pawb fod hyn yn syniad da – byddwn yn cynnig hyn i Mr Williams.

3. Bocs Syniadau

Edrychodd Robert a Dylan yn y Bocs Syniadau – un awgrym oedd yno y mis hwn sef cael mwy o wersi yn yr ardd natur yn ystod tymor yr haf.

4. **Arafu traffig** – buodd Robert a Sara yn trafod eu profiad o gynorthwyo'r heddlu i arafu'r traffig ar Heol Llanbadarn. Roedd gyda nhw arwydd a oedd yn dangos cyflymder ceir ar hyd y ffordd ac os oedd gyrrwyr yn teithio'n gynt na 30mya roedden nhw'n cael eu tynnu i ochr y ffordd gan y plismyn. Buodd Robert a Sara yn cydweithio gyda dau ddisgybl o Blascrug wrth wneud hyn, ac roedd yn brofiad buddiol iawn.

5. **Ymweliad Comenius** – ym mis Mai bydd athrawon o'n partner-ysgolion Ewropeaidd yn dod i Aberystwyth, ac yn ymweld â'r ysgol ar fore dydd Iau, Mai'r 23ain. Trafodwyd syniadau ar gyfer yr hyn y gallen nhw wneud tra'u bod nhw gyda ni. Dyma rai o'n hawgrymiadau:

- gwasanaeth ysgol gyfan;

- ymarferion/paratodau eitemau Eisteddfod yr Urdd;
- te croeso yn y Neuadd;
- arsylwi gwersi (yn enwedig gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg);
- cwrdd â'r Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco;
- taith o'r ysgol a'r ardd natur;
- ymweld â'r Clwb Brecwast a chael cinio ysgol.

Penderfynwyd y byddai aelodau Bl.6 o'r Cyngor Ysgol yn croesawu'r ymwelwyr yn ystod y gwasanaeth ysgol gyfan, ac yn helpu Mr Williams i'w dangos o gwmpas yr ysgol a'r ardd natur yn ystod y bore. Byddwn yn cwrdd eto y dydd Gwener cyn yr ymweliad er mwyn sicrhau fod yr holl drefniadau yn eu lle.

Diolchodd Robert i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Mai 17eg 2013

Cofnodion gan Sara a Gwenllian (Ysgrifenyddes ac Is-Gadeiryddes).